



delwedd © Caniluna Pty Ltd

Ym Mhrydain, mae pŵer dŵr ar raddfa fawr yn cael ei gynhyrchu ers y 1920au ac adeiladwyd y rhan fwy o gronfeydd dŵr dros 50 mlynedd yn ôl mewn cymoedd serth lle na foddwyd fawr o lystyfiant. Mae cronfeydd dŵr mewn rhai rhannau o'r byd (yn enwedig y rhai cynhesach) yn cynhyrchu llawer o fethan oherwydd y llystyfiant sy'n pydru ynddynt.

Newid yn yr hinsawdd CO ₂ e y kW awr	7 gram (ar gyfer trydan)	Allryiadau methan (gan ddibynnu ar amgylchiadau lleol ac oed y gronfa) yn isel yn y DU. Rhai allryiadau o ddeunyddiau a ddefnyddir.
Effaith ar fyd natur	Bach	Gall argaeau mawr gael effeithiau ar fywyd yn yr afon cyn ac ar ôl eu codi. Unwaith iddynt gael eu sefydlu gall cronfeydd a'u cyffiniau fod yn gynefin da i fywyd gwylt.
Risgiau	Isel	Gall argaeau fetu gan achosi llifogydd trychinebus. Mae poblogaethau wedi cael eu hadleoli i godi argaeau.
Effaith weledol	Bach	Mae argae mawr yn amlwg iawn ond ddim o bell fel arfer. Efallai bydd rhai pibellau i'w gweld.
Cost ar hyn o bryd	Isel iawn/ Bach iawn	Mewn man addas cynhyrchir pŵer rhad dros amser hir.
Cost ymhen 20 mlynedd	Isel iawn/ Bach iawn	Yn debygol o aros yr un fath neu'n rhatach o'i chymharu â ffynonellau ynni eraill.
Adnoddau'r DU	Gwael	Does dim llawer o ardaloedd mynyddig ym Mhrydain. Rhai adnoddau cyson, yn enwedig yn yr Alban, y rhan fwy o safleoedd da eisoes wedi'u defnyddio. Gallai newid yn yr hinsawdd effeithio ar lawiad a llif afonydd.
Dibynadwyedd/ hyblygrwydd	Da	Yn ddibynadwy gan amlaf, yn fwy felly yn y gaeaf fel arfer ond gallai sychdwr hir effeithio ar y cyflenwad. Hyblyg oherwydd bod modd storio dŵr mewn cronfeydd nes bo'i angen. Mae cynnwys storfa bwmp (pwmpio'r dŵr yn ôl i fyny i'r gronfa) yn cynyddu'r hyblygrwydd.